

Ar y We Gwefan yr Ofalaeth

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan. Yn syml iawn, chwiliwch am gronyn.org

Facebook

Mae gan yr Ofalaeth hefyd dudalennau Facebook sy'n rhoi gwybodaeth am eu gwaith.

Dyma fanylion y tudalennau a grewyd hyd yma.

Capel Coch: **Capel Coch Llanberis**

Carmel: **Capel Carmel, Llanllechid**

Bethlehem: **Capel Bethlehem, Talybont**

Gwefan Efe

Cofiwch fod gan Gynllun Efe wefan a thudalen Facebook hefyd i roi gwybod i bobl am ei waith.

Chwiliwch am cynllunefe.org

Ac ar Facebook yn naturiol iawn ewch i dudalen **Cynllun Efe**.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 12

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Tachwedd 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 26

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Tach. 19: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Tachwedd 14: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Tach. 19: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Corey Hampton ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Tachwedd 17: Cynhelir Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 19: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Tachwedd 19: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg John Lewis Jones.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 19: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 19

10.00 a.m. - Mr Corey Hampton

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams

Tachwedd 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 748: 12 Tachwedd, 2017

Yn ddigalon o ddiogel

Am unwaith, mae'r Arlywydd Trump wedi dweud rhywbeth doeth a da. Wel, mi fyddai'n ddoeth a da pe byddai wedi ei ddweud mewn cyswllt arall.

'Dydi'ch arfau ddim yn eich gwneud chi'n fwy diogel', meddai. Gwaetha'r modd, nid ymateb i'r saethu a laddodd chwech ar hugain o bobl mewn capel yn Sutherland Springs, Tecsas y Sul diwethaf yr oedd o. Er gwaethaf pob cyflafan debyg, mae'r Arlywydd a chynifer o'i gydwladwyr yn gwrthod ystyried ei gwneud yn fwy anodd i bobl gael gafael ar wn. Mae fel petai pob lladdfa'n cryfhau'r syniad mai gwn yw'r unig beth sy'n medru cadw pobl yr Unol Daleithiau'n ddiogel. Byddai angen arlywydd goleuedig i ddweud wrth ei genedl nad yw arfau'n eu gwneud yn fwy diogel. Nid un felly ydi Mr Trump.

Nid at Americanwyr yr oedd yn anelu ei eiriau ond at Arweinydd Gogledd Corea, Kim Jong-un. Yn wyneb awch Kim i ddatblygu arfau niwclear, roedd Trump, wrth ymweld â De Corea, am ei sicrhau na fydd yr arfau hynny'n ei gadw fo na'i wlad yn ddiogel. Roedd hefyd yn ei rybuddio na fydd yr Unol Daleithiau'n caniatáu iddo barhau i ddatblygu'r arfau hyn.

Wn i ddim beth sydd ym meddwl Kim Jong-un. Mae Donald Trump yn amlwg yn awgrymu ei fod yn credu y bydd arfau niwclear yn ei gadw'n ddiogel. 'Dim ffiars o beryg,' meddai Trump yn dalog. Mae'n wirioneddol frawychus y

gall yr Unol Daleithiau fynd i'r afael â Gogledd Corea yn yr ysbryd hwnnw.

Mae'r ddwy sefyllfa'n wahanol iawn, ond nid yn hollol annhebyg chwaith. Pam fod Mr Trump yn dadlau fod gwn yn cadw unigolion a chymdeithas yn ddiogel mewn un wlad ond yn mynnu na all arfau wneud yr un peth mewn gwlad arall? Ai gormod disgwyl i Mr Trump o leiaf fod yn gyson? Os nad yw arfau'n gwneud gwlad yn ddiogel, onid rhesymol yw credu nad yw gwn yn gwneud pobl yn ddiogel chwaith

Ond y mae'r Arlywydd yn gyson mewn un peth, gwaetha'r modd. Nid gwn yw'r broblem, meddai; nid gwn sy'n lladd, ond pobl. Pobl ddrwg ydi'r broblem, meddai; mae gwn yn iawn yn nwylo pobl dda. Ac mae'n ymddangos mai dyna yw sail ei bolisi arfau: mae arfau'n bethau ardderchog i amddiffyn gwledydd a chryfhau economi gwlad; mae angen eu cynhyrchu, eu lluosogi a'u gwerthu, cyn belled â'n bod yn eu gwerthu i bobl dda. Yn ôl datganiad diweddar o'r Tŷ Gwyn; 'Rhaid sicrhau ein bod yn gwerthu'r systemau hyn i bobl all eu defnyddio'n iawn i bwrpas cyfreithlon, fel gwrthderfysgaeth, a gofalu na chant eu defnyddio i wneud Arfau o Niwed Mawr nac mewn unrhyw ffordd a fydd yn tansellio ein lles ni'. Mewn geiriau eraill, mae arfau'n dda ond i ni eu rhoi yn nwylo pobl dda (y bobl a ystyriwn ni yn dda ... y funud hon). Ar Sul y Cofio, gweddiwn dros fyd ynyfod sy'n parhau i bentryru arfau wrth resynu at eu canlyniadau difaol.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Gwrando, fy mhobl, a dygaf dystiolaeth yn dy erbyn. O na fyddit yn gwrando arnaf fi, Israel! Na fydded gennyt dduw estron, a phaid ag ymostwng i dduw dieithr. Myfi yw'r ARGLWYDD dy Dduw, a'th ddygodd i fyny o'r Aifft; agor dy geg, ac fe'i llanwaf. Ond ni wrandawodd fy mhobl ar fy llais, ac nid oedd Israel yn fodlon arnaf; felly anfonais hwy ymaith yn eu cyndynrwydd i wneud fel yr oedd-ent yn dymuno (Salm 81:8-12).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

Bydd Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r

gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Rhowch wybod ar unwaith os gwelwch yn dda os oes aelod o un o eglwysi'r Ofalaeth yn yr ysbty.

Cymdeithas Undebol

Cynhaliwyd y Gymdeithas Undebol yn Llanberis nos Fawrth diwethaf. Cafwyd noson hwyllog yn gwneud addurniadau Nadolig yng nghwmni Mrs Pat Jones, Brynrefail.

Mae ambell i lun i'w weld ar dudalen Facebook Capel Coch ac ar dudalen Capel Coch ar wefan yr Ofalaeth.

Cronfa Logan

Anfonwyd £650 o Gapel Carmel i Gronfa Logan Sellers yn dilyn y Noson Goffi a gynhaliwyd ar Hydref 25. Unwaith eto, diolch am bob cefnogaeth.

Roedd llithriad yn Gronyn y Sul canlynol pan ddywedwyd fod £680 wedi ei godi yn y Noson Goffi (£608 oedd yn gywir). Ond gyda'r cyfraniadau pellach a gawed cyn diwedd y mis, codwyd £650.

CIC

Catrin oedd yn yn arwain CIC nos Wener diwethaf, a'r cyfan ar thema 'Goleuni'. Soniodd am ddilyn Crist fel cerdded yn y goleuni.

Pwyllgor Carmel

Cynhelir Pwyllgor Swyddogion Capel Carmel am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 20.

Bocsys Nadolig Wythnos arall

Mae cyfle eleni eto i anfon anrhegion mewn bocs esgidiau i blant anghenus mewn gwledydd tramor trwy'r eluisen Teams4U.

Mae angen i'r bocsys esgidiau fod yn barod ymhen pythefnos, erbyn nos Sul, Tachwedd 19.



Mae taflenni pwrpasol ar gael yn y capel, ac mae'r rhain yn nodi'r glir beth ellir ei roi yn y bocsys. Mae modd paratoi bocs i deulu yn ogystal ag i blentyn.

Gofynnir am rodd o £2.50 gyda phob bocs tuag at gost eu cludo i ben eu taith.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig Capel Coch ddydd Mawrth, Tachwedd 21. Edrychir ymlaen at gael y gefnogaeth arferol.

Ni fydd yno stondin 'bric a brac' y tro hwn ond bydd yno stondin ar gyfer nwyddau 'newydd neu bron newydd'. Byddwn yn falch o dderbyn nwyddau ar gyfer y stondin hon.

Croeso cynnes i bawb i ymuno yn yr hwyl.

DCDC

Gofynnwyd i ni gyhoeddi y bydd 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yn cael ei recordio yng Nghapel Emaus, Bangor am 6.30 o'r gloch, nos Lun, Rhagfyr 11 dan arweiniad Cefin Roberts.

Siop Lyfrau Bangor



Tybed faint ohonoch sydd wedi bod yn y Siop Lyfrau Cristnogol ym Mangor. Mae siop MANNA ar Ffordd Caerdybi ym Mangor Uchaf (dros ffordd i Gapel Penrallt neu hen gapel Twrgwyn).

Mae'r siop yn gwerthu pob math o nwyddau, yn gardiau, coffi a nwyddau masnach deg yn ogystal â llyfrau a chylchgronau Cristnogol.

Os na fuoch yno eisoes, mae'r mis hwn yn amser da i fynd yno gan fod pob llyfr i'w gael am bris gostyngol. Cewch 20% i ffwrdd oddi ar bris pob llyfr yn ystod mis Tachwedd.